






# GWEDDIO DROS WEINIDOGAETH ADFENT 2023

"Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin;
deisyfwch felly ar yr Arglwydd y cynhaeaf anfon gweithwyr
i'w gynhaeaf. "
Mathew 9:37,38



Ordeiniwyd Wendy Gardner yn Ddiaconad yn Eglwys All Saints, Y Drenewydd ar 26 Tachwedd 2023.

Neilltuir Dyddiau'r Cydgordiau ar gyfer gwedd"io dros alwedigaethau a thros y rhai sy'ngwasanaethu'r eglwys mewn gwahanol weinidogaethau. Yn draddodiadol, mae'r rhain yncael eu cadw ar ddyddiau Mercher, Gwener a Sadwrn yn yr wythnosau cyn Trydydd Sulyr Adfent, Ail Sul y Grawys, ar Dydd Pentecost ac yn nhrydedd wythnos (litwrgaidd) mis Medi.

Gallwch ddefnyddio'r ddalen hon i fyfyrio ac i wedd"io yn ystod DYDDIAU'RCYDGORDIAU eu hunain, yn ystod cyfnodau sefydlu, ordeinio a thrwyddedu, ar eich peneich hun neu gyda phobl eraill, yn eich eglwys neu yn eich Arda! Genhadaeth.





*Ysbryd Glân,*
*rhodd Duw i'r byd, datgela dy bresenoldeb yn ein bywydau trwy fendith dy ras a chysur dy gariad tynner. Galluoga ni i weld ble rwyt ar waith,*
*a gweinidogaetha mewn tosturi i'r rhai sydd angen ein gweddïau.*
*Amen.*

Image and prayer: *An Advent Book of Days: Meeting the Characters of Christmas* by Gregory K Cameron (Canterbury Press)

**'Yn syml, ystyr 'Yr Adfent' yw 'dyfodiad', sef dyfodiad Crist adeg ei eni a'i ail ddyfodiad mewn nerth a gogoniant i ddod A'i Deyrnas i ddwyn ffrwyth. Mae'n gyfnod o ddisgwyl, o ragweld ac o baratoi.**

**Isod mae ychydig o ddyfyniadau y byddwn yn eu clywed unwaith eto yr Adfent hwn: "Dringo i fynydd uchel; ti, Seion, sy'n cyhoeddi neges" (Eseia 40:9). Ydych chi'n meddwl efallai bod Duw yn eich gwahodd chi i fod yn negesydd iddo?**

**"Daeth dyn wedi ei anfon oddi wrth Dduw, a'i enw Ioan. Daeth hwn yn dyst i dystiolaethu am y goleuni, er mwyn i bawb ddod i gredu trwyddo." (Ioan 1: 6-8). Mae Duw yn dal i alw tystion i siarad dros y goleuni, sef Crist. Ydych chi'n meddwl efallai bod Duw yn eich gwahodd chi i dystiolaethu i Grist?**

**Yna, dywedodd Mair, "Dyma lawforwyn yr Arglwydd; bydded i mi yn 61 dy air di."**
**(Luc 1:38). Mae'n cymryd dewrder a gras i ddweud "Ie" wrth alwad Duw**

*Hollalluog a thragywyddol Dduw, trwy dy Ysbryd y mae holl gorff yr Eglwys yn cael ei lywodraethu a'i sancteiddio: gwrando ein gweddi, yr hwn a offrymwn dros dy holl ffyddloniaid, ar iddynt yn eu galwedigaeth a'u gweinidogaeth dy wasanaethu mewn sancteiddrwydd a gwirionedd er gogoniant i'th. enw; trwy ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist, sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. Amen*



Bydd yr Esgobaeth yn croesawu **Matthew Thompson**, a fydd yn cael ei drwyddedu fel Caplan Bugeiliol yn Ardal Genhadaeth Elwy ar 6 Rhagfyr am 7pm yn Eglwys y Plwyf Llanelwy.





## GWEDDÏWCH

- Dros y rhai sy'n ystyried eu galwedigaeth ar hyn o bryd a'n tîm o Ymgynghorwyr Galwedigaethau.
- Dros alwedigaethau i'r weinidogaeth ordeiniedig o blith ymgeiswyr iau, a thros y rhai a fydd yn arwain dy eglwys yn y dyfodol wrth i ni wynebu ymddeoliad cyfran helaeth o'n clerigion.
- Dros alwedigaethau i'r gweinidogaethau lleyg trwyddedig mwyaf newydd - arloeswyr, efengylwyr, caplaniaid bugeiliol, gweithwyr plant, ieuenctid a theuluoedd.
- Dros gynnydd mewn ymrwymiad i ddisgyblaeth ac aeddfedrwydd Cristnogol.
- Dros holl bobl Dduw mewn eglwysi ledled ein hesgobaeth wrth i ni geisio gwasanaethu Duw mewn sawl cyd-destun - yn y gwaith, yn y cartref, yn y gymuned, yn yr eglwys.
- Dros y rhai'n archwilio ac yn ymarfer gweinidogaeth wedi'i chomisiynu.

### Y RHAI SY'N PARATOI I GAEL EU HORDEINIO'N OFFEIRIAD YN 2024

Emma Dale (Offeiriad, Cyflogedig)
Ana Davies (Offeiriad, Cyflogedig)
Gwen Dixon (Offeiriad, Di-gyflog, Lleol)
Kathryn Hall (Offeiriad, Cyflogedig)
Pam Hallam-Wedley (Diacon, Di-gyflog)
Cass Meurig Thomas (Offeiriad, Cyflogedig)
Hugh Richardson (Offeiriad, Cyflogedig)

### Y RHAI SY'N DECHRAU HYFFORDDI ELENI

Mark Cooke (Caplan Bugeiliol)
David Dobbs (Offeiriad, Di-gyflog)
Lucy Farrar (Caplan Bugeiliol)
Cheryl Hesketh (Offeiriad, Cyflogedig)
Elin Jones (Offeiriad, Cyflogedig)
Jampa King (Offeiriad, Cyflogedig)
Sharon Morgan (Offeiriad, Cyflogedig)
Ian Williams (Diacon, Di-gyflog)

### Y RHAI SY'N PARATOI I GAEL EU HORDEINIO'N DIACON YN 2024

Stuart Dean (Offeiriad, Cyflogedig)
Rebecca Ratcliffe (Diacon, Di-gyflog)

### Y RHAI SY'N PARATOI I GAEL EU TRWYDDEDU FEL CAPLANIAID BUGEILIOL YN 2024

Maria Morante
Joshua Schoch

***GWEDDÏWN***

*Arglwydd, fel y gelwaist ti dy ddisgyblion, galw ni yn awr. Agor ein clustiau i wrando ar dy alwad; Agor ein llygaid i dy weld di; Agor ein calonnau i dy gariad. Helpa ni i'th glywed di, i brofi dy bresenoldeb gyda ni ac i'th garu di. Ac, wrth dy garu di, gad i ni dy wasanaethu di, ein Brenin was. Amen.*







